# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## CYP(3)-12-09 - Papur 1 - 22 September 2009

## Cyflwyniad o Dystiolaeth gan Rwydwaith Maethu Cymru i ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar osod plant mewn gofal

**Rhwydwaith Maethu Cymru**

Y Rhwydwaith Maethu yw llais gofal maeth a phrif elusen y DU i bawb sy'n ymwneud â maethu. Mae ein holl waith yn canolbwyntio ar wella'r profiad gofal maeth, gan wneud gwahaniaeth positif i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal maeth ac sy'n ei adael. Rydym yn cyflawni hyn drwy gydweithio gyda gofalwyr maeth a darparwyr gwasanaeth.

Sefydlwyd y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru yn 2002 ac mae ganddo sylfaen aelodaeth gref bellach, yn cynnwys yr holl awdurdodau lleol, bron i 90 y cant o'r aelwydydd maethu a mwyafrif y darparwyr maethu annibynnol. Ar hyn o bryd mae gennym 4,780 o aelodau sy'n ofalwyr maeth yng Nghymru yn darparu 2,700 o aelwydydd maethu. Rydym felly mewn sefyllfa unigryw i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid mewn ymgynghori a datblygu polisi, ac adeiladu consensws ar y datblygiadau y mae eu hangen i wella bywyd i blant sy'n cael eu maethu.

Ymhlith ein staff mae gofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol cofrestredig ac arbenigwyr eraill o ar draws y sbectrwm gofal maeth, yn cynnwys y rheiny sydd wedi cael eu maethu eu hunain. Gyda'n gilydd mae gennym lawer o flynyddoedd o brofiad ac arbenigedd heb ei ail.

Mae ein hamcanion strategol fel a ganlyn:

Bod yn llais gofal maeth.

Cefnogi ein haelodau ac eraill sy'n ymwneud â gofal maeth gydag ystod o wasanaethau.

Dylanwadu ar a llunio datblygiad ac arfer gofal maeth.

Hyrwyddo gofal maeth a'r hyn y mae gofalwyr maeth yn ei wneud.

Mae ymateb Rhwydwaith Maethu Cymru yn deillio o drafodaethau a gynhaliwyd gydag aelodau o bob adran o'n sylfaen aelodaeth yn cynnwys staff maethu awdurdodau lleol, rheolwyr darparwyr maethu annibynnol a gofalwyr maeth. Rydym wedi canolbwyntio ein hymatebion ar y meysydd hynny lle mae gennym ni, neu ein haelodau, brofiad uniongyrchol. Mae ymchwil hefyd yn helpu i hysbysu'r ymateb.

**Gofal Maeth yng Nghymru**

Mae 4,635 o blant yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Gofelir am 75% ohonynt gan deuluoedd maeth cymeradwy. Mae rôl y gofalwyr maeth hyn yn ganolog wrth ddylanwadu ar ddeilliannau i blant sy'n derbyn gofal. Mae Rhwydwaith Maethu Cymru yn credu bod cryfhau'r rôl hon yn allweddol i wella deilliannau i blant a phobl ifanc. Mae ein hymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys enghreifftiau o arfer da ac argymhellion ar sut i gyflawni'r rhain.

**Casglu gwybodaeth am blentyn**

Wrth bennu a ddylid gosod plentyn mewn gofal a lle i'w osod, bydd angen darlun cywir ar weithiwr cymdeithasol o anghenion ac amgylchiadau plentyn, a allai olygu y bydd angen iddynt gael gwybodaeth gan ystod o wasanaethau lleol - gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, ac ati, y gallent hwy hefyd orfod ystyried eu cyfrifoldebau ynghylch cyfrinachedd. I ba raddau mae gwybodaeth am anghenion plentyn yn cael ei rhannu gyda'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau, ac a oes gennych unrhyw enghreifftiau o arfer da mewn cyfathrebu rhyngasiantaeth o'r fath? A oes dealltwriaeth glir o bwy sy'n atebol yn y pen draw am benderfyniadau ynghylch gofal plentyn?

**YMATEB**

**Rhannu gwybodaeth**

Mae gofalwyr maeth yn dweud wrthym nad ydynt bob amser yn derbyn yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ofalu'n ddiogel am blentyn yn cynnwys gwybodaeth iechyd am feddyginiaeth ac alergeddau, ac mae'n ymddangos yn ddiweddarach bod yr wybodaeth ar gael i'r awdurdod lleol. Bydd yr anawsterau i ofalwyr maeth pan nad ydynt yn derbyn yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ofalu am blentyn sy'n derbyn gofal yn derbyn sylw yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Mae angen cryfhau prosesau i sicrhau trosglwyddo gwybodaeth yn brydlon rhwng cyrff iechyd a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae ein haelodau yn dweud wrthym fod gwybodaeth iechyd yn aml yn destun oedi ac yn ddibynnol ar ymarferwyr iechyd unigol yn ei chaffael. Nid yw'r rhesymau dros yr oedi bob amser yn glir.

Mewn arolwg a ymgymerwyd gan Y Rhwydwaith Maethu Caring for children with disabilities Y Rhwydwaith Maethu 2009 adroddodd

gofalwyr maeth sy'n gofalu am blant ag anabledd eu bod yn teimlo nad oedd y gwaith papur perthnasol yn amlygu anghenion y plentyn yn cael ei drosglwyddo iddynt bob amser, a bod hyn yn golygu nad oedd anghenion plant yn cael eu cwrdd, a bod lleoliadau felly mewn perygl o chwalu.

**Atebolrwydd**

Yn ein barn ni mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn deall eu cyfrifoldebau dros blant sy'n derbyn gofal yn llawn a'i fod yn ofynnol iddynt ddangos sut maent yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw ar bob lefel ar draws y cyngor.

Mae Rhwydwaith Maethu Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar hyn o bryd i gefnogi datblygu rhaglen hyfforddiant i gynghorwyr yng Nghymru i'w hysbysu am eu cyfrifoldebau corfforaethol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal. Mae angen am raglen barhaus o addysg i gynghorwyr a swyddogion i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau tuag at blant sy'n derbyn gofal. Mae'n rhaid i gynghorwyr gael disgwyliadau uchel ynghylch eu gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a'r rheiny sy'n gadael gofal.

**Argymhelliad**

Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi arweiniad yn egluro'r cyfrifoldeb dros gyfathrebu gwybodaeth rhwng:

Sefydliadau statudol.

Bod gofyniad yn cael ei osod ar gyrff iechyd i sicrhau systemau effeithiol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth.

Bod cyfrifoldeb rhianta corfforaethol yn cael ei gynnwys yn holl hyfforddiant aelodau etholedig, a'u bod yn derbyn cefnogaeth er mwyn dangos sut y gallant gwrdd â'r cyfrifoldeb hwnnw o fewn eu portffolios.

**Defnyddio'r wybodaeth honno**

2. I ba raddau mae'r gronfa ddata Adnodd Cefnogi Comisiynu Plant (CCSR) yn darparu digon o wybodaeth am leoliadau plant ac i ba raddau y defnyddir y gronfa ddata ar hyn o bryd? Sut gellid defnyddio'r gronfa ddata yn well?

**Ymateb**

Mae awdurdodau lleol a darparwyr maethu annibynnol yn rhannu'r nod cyffredin o geisio cyflawni'r deilliannau gorau posib i blant sy'n derbyn gofal. Un agwedd ar gefnogi hyn yw dod o hyd i'r lleoliadau gorau i blant. Nid yw'n ymddangos bod y CCSR yn cefnogi gweithio ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a Darparwyr Maethu Annibynnol (IFPau). Mae Rhwydwaith Maethu Cymru yn aelod o grwp ymgynghorol CCSR, ond nid oes ganddo brofiad uniongyrchol o ddefnyddio'r gronfa ddata. Rydym yn cefnogi'r bwriadau a'r uchelgeisiau y tu ôl i'r CCSR ond rydym bellach yn pryderu am y diffyg defnydd ohoni a'r goblygiadau o safbwynt adnoddau. Mae aelodau'n adrodd bod yn gronfa ddata yn cael ei hanwybyddu ac awgrymwn fod angen adolygiad brys.

Mae ystod o faterion gweithredol sydd wedi'u hamlygu i ni yn cynnwys:

Dibynadwyedd a digonedd mewn perthynas â gwybodaeth.

Mae rhy ychydig o wybodaeth am y plentyn y mae angen arno leoliad yn cael ei chofnodi ar y gronfa ddata i alluogi cyfateb yn gywir, hyd yn oed ar y cam cyntaf. Mae aelodau IFP yn dweud wrthym nad yw anghenion a nodwyd y plentyn bob amser yn cael eu nodi'n glir ar y gronfa ddata. Er enghraifft efallai bydd y cais am leoliad yn dweud bod gan y plentyn ymddygiad rhywiol ei natur, ond nid yw hyn yn hysbysu'r IFP am ba lefel o oruchwylio fydd ei hangen ar y plentyn hwn, felly mae cyfateb cam cyntaf yn anodd hyd yn oed.

Data anghyflawn. Deallwn fod nifer o awdurdodau nad ydynt yn defnyddio'r gronfa ddata ar gyfer lleoliadau mewnol. Felly mae'r data yn anghyflawn ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio darparu gwasanaeth.

Nid yw'r gronfa ddata yn cael ei defnyddio'n gyson ar draws Cymru. Nid yw pob darparwr yn diweddaru'u gwybodaeth ar y gronfa ddata. Mae goblygiadau o ran adnoddau mewn perthynas â chadw'r data yn gyfredol ac yn gywir.

Ychydig o dystiolaeth sydd fod CCSR yn cael ei ddefnyddio i gynllunio ar gyfer darparu gwasanaeth. Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai CCSR yn fecanwaith hollbwysig i gynorthwyo cynllunio darparu gwasanaethau maethu. Pe byddai'r holl leoliadau maethu sydd ar gael wedi'u cofnodi ar y gronfa ddata byddai hyn yn caniatáu ar gyfer cynllunio rhanbarthol i recriwtio gofalwyr a recriwtio wedi'i dargedu yn unol â phrinder gofalwyr maeth i ofalu am grwpiau penodol o blant.

**Gwella'r defnydd o'r gronfa ddata**

Mae cronfa ddata yn ffordd ddefnyddiol o nodi achosion cyfateb gofal maeth posib ond ni fydd byth yn cymryd lle yr angen i weithwyr proffesiynol drafod y lleoliad.

Amcan gwreiddiol CCSR oedd darparu data cywir am symudiadau plant ac yn benodol am anghenion nad oeddent yn cael eu cwrdd mewn ardaloedd awdurdodau lleol. Y bwriad oedd y byddai gwybodaeth o'r gronfa ddata yn cynorthwyo â chynllunio a chomisiynu. Mae angen cydweithredu wrth gomisiynu gwasanaethau, sy'n dibynnu ar gael data cywir er mwyn seilio cynllunio a chomisiynu arno. Os yw'r data a gynhyrchir gan CSSR ar gael i bawb ac yn ddigon cadarn yna bydd y sector preifat yn buddsoddi ac yn darparu'r gwasanaethau ar sail ranbarthol, ond ar hyn o bryd, nid yw'r data yn ddigon cadarn i gefnogi'r ymagwedd hon.

**Argymhelliad**

**Yn dilyn adolygiad o bwrpas a defnydd CCSR gan y grwp ymgynghorol CCSR dylid cynhyrchu a gweithredu cynllun gweithredu.**

3. Bydd angen  gwybodaeth am anghenion ac amgylchiadau plentyn ar asiantaethau maethu a gofalwyr maeth er mwyn cynnal asesiadau risg yn briodol, darparu ar gyfer anghenion plentyn, ac ati. I ba raddau mae gwybodaeth briodol fel arfer yn cael ei darparu i asiantaethau maethu a gofalwyr maeth, a sut gallai cyfathrebu o'r fath gael ei wella? A yw'r system gomisiynu yn galluogi neu'n rhwystro darparu gwybodaeth i ddarpar asiantaethau maethu a gofalwyr, ac a oes gennych unrhyw enghreifftiau o arfer da wrth ddarparu gwybodaeth i asiantaethau maethu a/neu ofalwyr maeth?

**YMATEB**

**Darparu gwybodaeth i ofalwyr maeth**

Rhaid rhoi i ofalwyr maeth a gwasanaethau maethu yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt bob amser i helpu plant i gyrraedd eu potensial a'u cadw hwy a'r rhai o'u cwmpas yn ddiogel. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am hanes y plentyn; am anghenion a hoffterau dydd i ddydd; am berthnasau teuluol, trefniadau cyswllt a chynlluniau ar gyfer y dyfodol i gyflawni lleoliad parhaol. Rhaid rhoi gwybodaeth yn brydlon a dylai fod ar lafar ac yn ysgrifenedig.

**Darparu gwybodaeth i wasanaethau maethu a gofalwyr maeth – y darlun presennol yng Nghymru**

Mae pryderon difrifol ynghylch argaeledd presennol gwybodaeth i ofalwyr maeth yng Nghymru.

Mewn arolwg diweddar a ymgymerwyd gan Y Rhwydwaith Maethu Getting the support they need  Y Rhwydwaith Maethu 2009 cyhoeddir hydref 09  ynghylch y gefnogaeth mae gofalwyr maeth yn ei derbyn, dywedodd 53% o'r ymatebwyr yng Nghymru bod plentyn wedi'i osod gyda hwy yn ystod y 3 blynedd diwethaf nad oeddent wedi derbyn yr holl wybodaeth oedd ei hangen arnynt amdano er mwyn gofalu amdano yn ddiogel. Roedd 81% nad oeddent wedi derbyn gwybodaeth am ymddygiad cyffredinol y plentyn, roedd bron i 70% nad oeddent wedi cael gwybod am hanes y cam-drin a ddioddefwyd gan y plentyn, ac roedd ychydig dros 30% nad oeddent wedi cael gwybod am anghenion meddygol y plentyn. Mae'r ffigurau hyn yn gyson â chanfyddiadau'r DU.Mae data Cymru yn cadarnhau astudiaeth gynharach yn y DU yn ystod 2003 lle roedd 58% Selwyn, J; Sturgess W; Quinton, D a Baxter, C (2003) Costs and Outcomes of Non-infant Adoptions: report to the Department for Education and Skills. Llundain DfES  o ofalwyr yn teimlo eu bod wedi derbyn gwybodaeth annigonol.Adroddodd Fit to Foster Fit to Foster, Rhwydwaith Maethu Cymru 2003 y dywedodd 52% o ofalwyr maeth pan ofynnwyd iddynt beth fyddai wedi helpu er mwyn atal lleoliad rhag chwalu y byddai derbyn gwybodaeth lawn am y plentyn wedi gwneud gwahaniaeth.Mae'r Rhwydwaith Maethu yn ymwybodol o achosion lle nad yw gwybodaeth wedi cael ei rhannu gyda gofalwyr maeth oherwydd ei bod yn cael ei hystyried yn 'gyfrinachol'.

**Statws a rôl gofalwyr maeth**

Disgwylir i ofalwyr maeth gynnig mwy na chartref yn unig i blant sydd ei angen. Mae eu sgiliau yn ychwanegol i rai rhiant ac yn eu galluogi i ymateb i, a helpu, plant sydd wedi cael eu trin yn wael, eu hesgeuluso, rhai sydd ag anawsterau ymlynu neu faterion emosiynol ac ymddygiadol. Cydnabyddir yn gynyddol mai'r hyn y mae gofalwyr maeth yn ei wneud sy'n hollbwysig wrth helpu plant i gyflawni eu potensial.

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn credu mai cryfhau rôl gofalwyr maeth - yr ymarferwyr gyda'r ymwneud mwyaf ym mywydau mwyafrif y plant a phobl ifanc mewn gofal - yw'r allwedd i wella deilliannau i blant sy'n derbyn gofal.

Rhaid i ofalwyr maeth:

Feddu ar y statws a'r awdurdod i ddarparu profiad da o fywyd teuluol i blant.

Meddu ar y sgiliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen i helpu plant i gyflawni eu potensial.

Cael eu talu'n briodol**.**

Mae gofalwyr maeth wrth wraidd tîm o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaeth sy'n gweithio ar ran pobl ifanc mewn gofal cyhoeddus. Mae gofyn iddynt gyflwyno gofal personol iawn o fewn fframwaith proffesiynol ac mae angen iddynt ymdrin â'r hyn y maent yn ei wneud mewn ffordd broffesiynol, sy'n cynnwys: ysgrifennu adroddiadau, adolygiadau cartref, ymdrin â gwaith papur, mynychu cyfarfodydd cytuno ar leoliadau, ymwneud â'r heddlu, mynychu'r llys a rhoi tystiolaeth, rheoli cyswllt, gwneud gwaith stori bywyd, ac ar yr un pryd parhau â bod yn rhiant a chwrdd ag anghenion emosiynol a chorfforol y plentyn yn eu gofal mewn ffordd sy'n diogelu'r plentyn a nhw'u hunain.

Nid yw rôl gofalwyr maeth mewn perthynas ag addysg yn glir i weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r plentyn maeth, er enghraifft:

Ymgymerodd Rhwydwaith Maethu Cymru ag arolwg ar ran LlCC o ymwneud gofalwyr maeth â Chynlluniau Addysg Personol (CAPau) a'u barn amdanynt. Gofalwyr maeth a CAPau LlCC 2009 ar y gweill ar gyfer gaeaf 2009 Derbyniodd 66% o'r 504 o ofalwyr maeth a ymatebodd wybodaeth am CAPau ond roedd 20% na chawsant eu cynnwys o gwbl mewn trafodaethau am CAP y plentyn yr oeddent yn gofalu amdanynt. Mae'n hanfodol bod yr holl ofalwyr maeth yn derbyn gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig am CAPau a'u bod yn rhan o'r tîm sy'n cyfrannu at gynhyrchu a monitro dogfen 'fyw'. Mae gan ofalwyr maeth rôl hollbwysig wrth addysgu plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, mae'n rhaid eu cynnwys mewn cyfarfodydd ffurfiol a dylid egluro eu rôl yn y system addysg statudol.

**Goblygiadau a'r ffordd ymlaen**

Mae Rhwydwaith Maethu Cymru yn ystyried bod cydnabyddiaeth o'r rôl broffesiynol hon a gwell statws i ofalwyr maeth yn hollbwysig mewn perthynas â gwella safonau arfer. Yn Lloegr mae gofalwyr maeth yn cael eu henwi fel rhan o'r gweithlu plant. Cânt eu cynnwys yn ôl-troed cyngor sgiliau sector, y Cyngor Datblygu Gweithlu Plant, ac mae'n ofynnol ar awdurdodau lleol i ystyried materion cynllunio gweithlu i ofalwyr maeth wrth iddynt lunio eu cynlluniau gweithlu. Nid dyma'r sefyllfa yng Nghymru.

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn teimlo pe byddai gofalwyr maeth yn cael eu cydnabod fel rhan o'r tîm proffesiynol o gwmpas y plentyn byddent yn derbyn gwybodaeth berthnasol a chael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau.

Mae gan ymgyrch Y Rhwydwaith Maethu "Gyda'n Gilydd er Newid " "Ymgyrch Gyda'n gilydd er newid " Y Rhwydwaith Maethu Hydref 2009" "

dair prif thema fydd yn sicrhau bod gofalwyr maeth yn:

Meddu ar y statws a'r awdurdod i ddarparu profiad da o fywyd teuluol i blant.

Meddu ar y sgiliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i helpu plant i gyflawni eu potensial.

Cael eu talu'n briodol.

**Argymhelliad:**

Dylid rhoi cydnabyddiaeth i'r cyfraniad anferth a wneir gan ofalwyr maeth i fywydau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal drwy gydnabod eu statws, rhoi'r awdurdod sydd ei angen arnynt i ofalwyr maeth, cwrdd â'u hanghenion dysgu, datblygu a chefnogi a sicrhau eu bod yn derbyn tâl priodol. Byddai Rhwydwaith Maethu Cymru yn dymuno gweld y newidiadau hyn yn arwain at gofrestru gofalwyr maeth gyda Chyngor Gofal Cymru.

Dylid cyflwyno fframwaith gorfodol ar gyfer dysgu a datblygu parhaus gofalwyr maeth yng Nghymru i gefnogi datblygiad parhaus gofalwyr maeth yn yr un modd â'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer eraill yn y gweithlu gofal plant.

Dylid cyhoeddi arweiniad yn amlygu rôl gofalwyr maeth wrth gwblhau CAPau i ddarparwyr addysg, darparwyr maethu a gofalwyr maeth a phlant sy'n derbyn gofal.

4. I ba raddau y mae lleoliadau yn cael eu cynllunio? A oes eglurder ynghylch a fydd lleoliadau ar gyfer cyfnod byr o amser, a fyddant yn arwain yn y pen draw at fabwysiadu o bosib, ac ati? A allwch ddarparu unrhyw enghreifftiau o arfer da wrth gynllunio lleoliadau maethu?

**YMATEB**

**Mae cynllunio lleoliadau yn gofyn am eglurder ac mae angen gwybodaeth berthnasol ar ofalwyr maeth.**

Dylai cynllun gofal y plentyn nodi'n glir y deilliannau disgwyliedig i'r plentyn a sut y bydd y rhain yn cael eu cyflawni. Dylai'r cytundeb lleoliad maethu nodi amcanion y lleoliad yng nghyd-destun cynllun yr awdurdod lleol ar gyfer gofal y plentyn Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003

http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2003/20030237e.htm#sch6. Mae ein haelodau yn dweud wrthym nad yw'r cynllun lleoliad bob amser yn adlewyrchu cynllun gofal y plentyn. Nid yw hyn yn caniatáu i ofalwyr maeth weithio gyda phlant mewn ffordd mor effeithiol ag y byddent yn dymuno a chyflawni'r deilliannau a nodwyd ar gyfer y plentyn.Mae Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 yn nodi'r wybodaeth y dylid ei chynnwys yn y cytundeb lleoliad maethu. Dylid cynnwys gwybodaeth berthnasol yn cynnwys hanes iechyd yn y cytundeb maethu.Gall newid lleoliad greu ansefydlogrwydd i blant, gan symud i dy gwahanol a byw gyda gwahanol bobl, yn ogystal o bosib â newid ysgol hefyd. Roedd 30% o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi symud ddwywaith neu fwy erbyn diwedd y flwyddyn 2008. Uned Ddata CLlLC Mae Rhwydwaith Maethu Cymru yn amcangyfrif bod prinder o 700 o ofalwyr maeth yng Nghymru. Mae'n debygol y bydd hyn yn cynyddu yn y dyfodol gyda gweithlu gofalwyr maeth sy'n gynyddol heneiddio. The age of foster care Y Rhwydwaith Maethu 2009 Mae 68% o ofalwyr maeth yng Nghymru yn eu 50au, 60au a 70au. Mae'n debygol y bydd cyfran fawr o'r gweithlu yn ymddeol dros y 10 mlynedd nesaf. Po fwyaf y gronfa o deuluoedd maeth, y mwyaf tebygol y bydd modd canfod cyfateb da, yn nhermau lleoliad, diwylliant, iaith, crefydd, cefndir, ffordd o fyw a diddordebau hyd yn oed, gan felly gynyddu'r tebygrwydd o sefydlogrwydd lleoliad. Rydym yn ymwybodol fod y prinder gofalwyr maeth a'r anawsterau wrth gyfateb plant â theuluoedd wedi arwain ar rai gofalwyr maeth yn dod o dan bwysau i dderbyn plant sydd naill ai y tu allan i'r hyn y maent wedi'u cymeradwyo i'w dderbyn neu lle nad oes ganddynt yr holl sgil a gwybodaeth i gwrdd ag anghenion y plentyn. Mewn arolwg diweddar a ymgymerwyd gan Y Rhwydwaith Maethu Getting the support they need Y Rhwydwaith Maethu 2009 adroddodd 31% o ofalwyr maeth a ymatebodd yng Nghymru y gofynnwyd iddynt ofalu am blant y tu allan i'r ystod y cymeradwywyd hwy ar ei chyfer. Mae darparu lleoliadau sefydlog yn hollbwysig er mwyn gwyrdroi bywydau plant a phobl ifanc mewn gofal. I oddeutu traean o'r plant a'r bobl ifanc nid ateb dros dro cyn dychwelyd adref yw gofal, ond yn hytrach mae'n drefniant mwy hir dymor, lle y mae'n hollbwysig eu bod yn derbyn sefydlogrwydd i'w helpu i ddatblygu a llwyddo. Gallai mabwysiadu fod yn gam priodol i gyfran fach o blant iau ond i'r mwyafrif helaeth nid yw'n addas neu nid yw'r plentyn yn dymuno hynny. Mae llawer o bobl ifanc yn dymuno cadw cyswllt â'u teuluoedd genedigol. Felly mae gofal maeth hir dymor yn hollbwysig i'r plant a'r bobl ifanc hyn er mwyn iddynt allu datblygu ymlyniad, sefydlogrwydd ac ymdeimlad o berthyn i deulu yn hytrach na symud parhaus rhwng lleoliadau byr dymor.
Rhaid gweld gofal maeth hir dymor fel opsiwn dilys ar gyfer darparu sefydlogrwydd a lleoliad parhaol i blant a phobl ifanc mewn gofal, ag iddo'r un statws â mabwysiadu a gwarcheidwaeth arbennig. Mae ymchwil yn awgrymu nad yw'r deilliannau yn arbennig o wahanol (Sinclair Ian Sinclair , Fostering Now messages from foster care). Gofal maeth hir dymor yw'r brif ffynhonnell ar gyfer darparu lleoliad parhaol i fwyafrif helaeth y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, ac mae angen gwella statws gofalwyr maeth.Gall gofal maeth hir dymor fod y dewis o ran lleoliad i blant ifanc ac i bobl ifanc sy'n dod i mewn i ofal yn hwyrach yn ystod eu bywyd fel ei gilydd. Er bod oed y

plentyn ar adeg y lleoli yn ffactor pwysig, mae barn ac anghenion y plentyn neu'r person ifanc, a natur y perthnasau y maent wedi'u ffurfio hefyd yn allweddol wrth bennu'r deilliannau ar gyfer y plentyn. Mae Rheoliadau Maethu (Cymru) 2003 yn glir ar y math o wybodaeth sydd ei hangen mewn cynlluniau gofal. Mae bwlch rhwng y gofynion deddfwriaethol ac arfer sy'n arwain at anawsterau mewn lleoliadau.

**Argymhelliad:**

Dylid rhoi mwy o bwyslais ar ofal maeth hir dymor fel rhan o'r dewisiadau o ran lleoliad.

Dylai fod yn ofynnol ar awdurdodau lleol ddangos sut maent yn sicrhau darpariaeth ddigonol o ofalwyr maeth addas.

Dylid archwilio'r bwlch sylweddol rhwng deddfwriaeth ac arfer.

5. I ba raddau mae risgiau lleoliadau maeth yn cael eu hegluro i ofalwyr maeth?

**YMATEB**

Rhaid ystyried risg ym mhob lleoliad a dylid ei reoli drwy nodi cynnar a chynllunio clir. Mae tair elfen i reoli risg mewn lleoliad maethu:

Paratoi a hyfforddi gofalwyr maeth.

Y cynllunio, cefnogaeth barhaus a goruchwyliaeth sy'n digwydd rhwng gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol.

Yr wybodaeth a roddir i ofalwyr maeth.

**Dysgu a datblygu i ofalwyr maeth**

Mae proses asesu hir ynghlwm wrth ddod yn ofalwr maeth cymeradwy. Mae rhan o'r broses honno yn cynnwys hyfforddiant cyn-gymeradwyaeth (yn fwyaf cyffredin "Sgiliau ar gyfer Maethu" 2009 Y Rhwydwaith Maethu) sydd bellach bron yn safonol, ond, yn dilyn cymeradwyaeth, mae'r sefyllfa mewn perthynas â hyfforddiant yn llawer llai clir ac mae angen ymdrin â hi gyda rhaglen o hyfforddiant parhaus.

Mae gofalu mwy diogel yn rhan o'r hyfforddiant cyn-gymeradwyaeth. Yn Lloegr mae'r Cyngor Datblygu Gweithlu Plant (CWDC) wedi cyflwyno safonau Hyfforddiant, Cefnogaeth a Datblygiad ar gyfer gofal maeth y mae'n rhaid eu cwblhau o fewn 12 mis i'r gymeradwyaeth. Mae'r safonau yn cynnwys diogelu plant a phobl ifanc.

**Cynllunio**

Mae ein haelodau sy'n ofalwyr maeth yn dweud wrthym eu bod yn teimlo nad yw gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'u gweithiwr cymdeithasol nhw'u hunain (gweithiwr cymdeithasol y tîm maethu) bob amser yn cyfathrebu â'i gilydd a bod diffyg eglurder ynghylch eu rolau. Mae'r gofalwyr maeth yn adrodd eu bod yn teimlo bod diffyg cynllunio ar y cyd. Gallai hyn fod yn fater ynghylch y gweithlu, o ystyried y trosiant staff uchel mewn llawer o ardaloedd, lefelau salwch uchel a gweithwyr cymdeithasol nad ydynt yn deall cyd-destun diwylliannol Cymru.

Nid yw darpar ofalwyr bob amser yn derbyn cyngor i sicrhau bod ganddynt yswiriant diogelwch cyfreithiol rhag ofn y gwneir cyhuddiad yn eu herbyn. Darperir yr yswiriant hwn fel rhan o'r aelodaeth i aelodau unigol y Rhwydwaith Maethu. Yn ddiweddar darparwyd cefnogaeth gyfreithiol gennym i ofalwr maeth yng Nghymru a gostiodd £10,000.

**Rhannu gwybodaeth**

Mae ein haelodau sy'n ofalwyr maeth yn dweud wrthym fod yr wybodaeth a roddir iddynt yn amrywio o ran safon ac yn dibynnu ar weithwyr cymdeithasol unigol. Nid yw'r arfer yn gyson ar draws Cymru. Dywedwyd wrthym am leoliadau maethu lle na ddywedwyd wrth ofalwyr bod plant wedi cael eu cam-drin yn rhywiol; a bod gofyn i ofalwyr roi meddyginiaeth heb iddynt dderbyn gwybodaeth am ei sgil effaith bosib. Mewn arolwg diweddar a ymgymerwyd gan Y Rhwydwaith Maethu Getting the support they need Y Rhwydwaith Maethu 2009 dywedodd 53% o ofalwyr maeth yng Nghymru eu bod yn ystod y 3 blynedd diwethaf wedi cael plentyn wedi'i leoli gyda hwy nad oeddent wedi derbyn yr holl wybodaeth oedd ei hangen arnynt amdano er mwyn gofalu amdano yn ddiogel. Roedd hyn yn cyfateb i ffigurau'r DU, lle roedd 50% o ofalwyr maeth yn adrodd am ddiffyg gwybodaeth.

**Argymhelliad:**

Dylai fframwaith gorfodol ar gyfer dysgu a datblygiad gofalwyr maeth gael ei gyflwyno yng Nghymru.

Dylid rhoi gwybodaeth berthnasol i ofalwyr cyn y lleoliad. Fel isafswm, yr wybodaeth a nodwyd yn Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003.

6. I ba raddau mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan ym mhroses eu lleoliadau eu hunain?

**YMATEB" "**

Mae arfer yng Nghymru yn amrywio yn y maes hwn. Lle mewn llawer o achosion ychydig yn unig o ddewis sydd gan blant am eu lleoliad maeth, nid oes gennym lawer o dystiolaeth o blant yn cymryd rhan yn weithgar mewn gwneud penderfyniadau. Yn ein barn ni mae hwn yn faes arall lle mae angen cryfhau arweiniad.

Mae prinder o 700 o ofalwyr maeth ar draws Cymru, felly hyd yn oed pan mae lleoliadau wedi'u cynllunio, efallai na fydd cronfa o ofalwyr ar gael gyda'r sgiliau a'r wybodaeth i gwrdd ag anghenion y plentyn.

Yn aml nid oes dewis o ofalwyr maeth ar gael sy'n gallu cwrdd ag anghenion y plentyn sy'n derbyn gofal. Hyd yn oed pan fydd hyn yn digwydd, dylid cynnwys plant mewn cyfarfodydd, ceisio'u barn ac egluro pam mae penderfyniadau penodol yn cael eu gwneud.

Mewn lleoliadau a gynlluniwyd dylid cyflwyno plant yn raddol i ofalwyr addas, ond mae ein haelodau yn dweud wrthym nad yw hyn yn digwydd ym mhob achos.

Cyhoeddodd Cyfarwyddwr Hawliau Plant Lloegr adroddiad yn 2005 ar farn plant am ofal maeth. Adroddodd plant nad oeddent yn cael digon o wybodaeth am eu teuluoedd maeth cyn iddynt symud i mewn a rhoddwyd ychydig neu ddim dewis i blant ynghylch lle yr oeddent yn cael eu lleoli 'Being fostered a national survey of the views of Foster Children, Foster Carers and Birth Parents about foster care. Dr Roger Morgan Cyfarwyddwr Hawliau Plant Mehefin 2005. Nid oes unrhyw reswm i gredu bod y sefyllfa yn wahanol yng Nghymru. Mae angen ymchwil tebyg yng Nghymru i sefydlu barn plant maeth. Mae angen i feibion a merched gofalwyr maeth gael eu gwerthfawrogi'n iawn a'u cydnabod am y rôl y maent yn ei chwarae mewn maethu. Dylid ymgynghori â hwy a dylid eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Rhaid darparu gwasanaethau cefnogaeth priodol ar eu cyfer sy'n hyrwyddo eu lles meddyliol a chorfforol.  Mae meibion a merched teuluoedd maethu yn dweud wrthym nad ydynt yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am bwy sy'n dod i fyw gyda hwy yn eu cartref.Mae angen cefnogaeth ar feibion a merched i ymdopi â llawer o agweddau ar gael plentyn sy'n derbyn gofal yn byw gyda hwy.Gellir ffurfio perthnasau positif rhwng meibion a merched gofalwyr maeth a phlant maeth lle mae cwmnïaeth a chyfeillgarwch yn ffurfio. Lle mae meibion a merched yn gweld plant maeth yn elwa ar yr hyn sydd gan eu teulu i'w gynnig, ac yn ei werthfawrogi, maent yn cael boddhad o hyn. I'r gwrthwyneb, lle nad yw'n ymddangos bod plant maeth yn gwerthfawrogi yr hyn sydd gan y teulu i'w gynnig iddynt, gall meibion a merched gofalwyr maeth ddiflasu. Lle mae perthynas gref wedi datblygu rhwng meibion a merched gofalwyr maeth a phlant maeth gall fod yn anodd iawn iddynt weld plant yn symud ymlaen.

**ARFER DA**

Mae enghreifftiau yng Nghymru o grwpiau meibion a merched sy'n cefnogi meibion a merched gofalwyr maeth i gwrdd a rhannu eu profiadau a'u pryderon tra'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol.

Mae darparwyr gwasanaethau maethu yng Nghymru sy'n hwyluso grwpiau pobl ifanc sy'n derbyn gofal i gywain eu barn.

Mae enghreifftiau yn Lloegr o banelau Rhianta Corfforaethol yn sefydlu grwpiau ymgynghori â phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Mae enghreifftiau yn Lloegr o bobl ifanc o oed a lefel o ddealltwriaeth briodol yn cael rheoli eu cyfarfodydd adolygu, gyda chefnogaeth. Maent yn penderfynu ar y bobl berthnasol i fynychu a chânt eu cefnogi i gadeirio'r cyfarfodydd. Nid ydym wedi gallu nodi'r lefel hon o ymgysylltiad gan blant yng Nghymru.

**Argymhelliad:**

Dylid cyhoeddi arweiniad diwygiedig ar bwysigrwydd cynllunio lleoliadau.

Dylid cryfhau'r rheoliadau a'r arweiniad a'r safonau sy'n llywodraethu sut mae asiantaethau yn gweithio gyda meibion a merched gofalwyr maeth a'u cefnogi, er mwyn sicrhau bod barn a lles meibion a merched yn cael eu hystyried drwy gydol y profiad maethu.

Rhaid ei wneud yn ofynnol i ddarparwyr maethu gefnogi meibion a merched gofalwyr maeth gydag ystod o wasanaethau cefnogi priodol a allai gynnwys grwpiau cefnogi meibion a merched.

Dylai arfer da ar ymgysylltu pobl ifanc yn effeithiol wrth wneud penderfyniadau gael ei nodi a'i rannu ar draws Cymru yn unol â'u hawliau o dan (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) UNCRC yn dilyn lleoliad.

7. I ba raddau yr ydych yn ystyried bod gweithiwr cymdeithasol plentyn yn parhau wedi'i ymgysylltu â'u gofal, ar ôl iddynt fynd i mewn i leoliad maeth? Er enghraifft, pwy sy'n gyfrifol am gydgysylltu ag ysgolion i gychwyn? A roddir digon o hyblygrwydd ac annibyniaeth i ofalwyr maeth i ofalu am eu plant, heb rwystrau biwrocrataidd?

**YMATEB**

Mae gofalwyr maeth yn gwerthfawrogi cefnogaeth eu gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol ac mae angen iddynt wybod bod cefnogaeth ar gael, ond mae angen hefyd i ofalwyr maeth gefnogi'r plentyn yn eu gofal a'u helpu i gyflawni eu llawn botensial heb unrhyw fiwrocratiaeth anorfod yn eu rhwystro.

**Eglurder ynghylch i ba raddau y mae gofalwyr yn gwneud penderfyniadau**

Mae plant a phobl ifanc mewn gofal maeth yn aml yn colli allan ar y cyfleoedd sydd ar gael i blant eraill oherwydd nad oes hawl gan ofalwyr maeth i wneud penderfyniadau bob dydd y byddent fel arfer yn cael eu gwneud gan riant. Er enghraifft, ar hyn o bryd ni all ofalwyr maeth lofnodi ffurflenni caniatâd ysgolion ar gyfer gweithgareddau a gwibdeithiau, ac ni allant fynd â phlentyn i dorri ei wallt heb ganiatâd. Mae'n rhaid i'r penderfyniadau hyn fynd drwy brosesau gwasanaethau cymdeithasol ac rydym yn clywed yn aml am achosion lle na all blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau oherwydd oedi biwrocrataidd yn y broses hon. Mae graddau helaeth o amrywiad ynghylch pa benderfyniadau y bydd gwahanol wasanaethau maethu yn caniatáu i ofalwr maeth eu gwneud, ond yn gyffredinol mae diwylliant yn bodoli sy'n fiwrocrataidd iawn ac yn gwyro yn erbyn risgiau sy'n ei wneud yn anodd iawn i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd.

Wrth i ni symud tuag at dderbyn gofalwyr maeth fel aelodau proffesiynol y gweithlu plant, mae angen i fwy o dybiaeth ynghylch cyfrifoldeb gofalwr maeth dros weithgareddau bob dydd gael ei nodi yng nghynllun y plentyn, yn enwedig ar gyfer lleoliadau hir dymor.

Mae'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) yn nodi'r materion y dylid eu cwmpasu yn y cytundeb lleoliad maethu, y mae'n rhaid i'r awdurdod cyfrifol gytuno arno gyda'r gofalwr maeth cyn y gellir lleoli plentyn gyda'r gofalwr hwnnw. Mae'r rhain yn cynnwys yr amgylchiadau lle mae'n rhaid i'r gofalwr gael cymeradwyaeth yr awdurdod cyfrifol ymlaen llaw i'r plentyn gymryd rhan mewn gwibdeithiau ysgol neu aros dros nos i ffwrdd o gartref y gofalwr.

Fodd bynnag mae'r realiti ar lefel llawr gwlad yn wahanol i'r hyn y mae'r rheoliadau yn ei awgrymu. Mae cytundebau lleoliadau maeth yn bell o fod yn safonol, a lle mae un yn bodoli yn aml ni fydd ynddo arweiniad clir ynghylch sut i ymdrin â'r mater penodol o wibdeithiau ysgol. Credwn fod angen ystyried ystod ehangach o feysydd ar gyfer dirprwyo posib y tu hwnt i'r ddau a nodwyd yn atodlen 6, yn benodol i gwmpasu ystod eang o ffurflenni caniatâd ysgolion a chaniatâd ar gyfer digwyddiadau bob dydd fel gwyliau a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol fel gwersylloedd sgowtiaid neu geidiaid, ond nid yw'r mater o wibdeithiau ysgol yn cael ei ymdrin yn effeithiol ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd mae gwrthdaro hefyd rhwng cyfraith addysg, sy'n ystyried bod gan ofalwyr maeth gyfrifoldeb dros blant yn eu gofal, a rheoliadau ac arfer gwasanaethau plant a allant yn aml atal y gofalwyr maeth rhag ymgysylltu â'r ysgol neu lofnodi ffurflenni ysgol.

Credwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi arweiniad sy'n helpu awdurdodau lleol i egluro eu sefyllfa ar ddirprwyo cyfrifoldeb dros lofnodi ar gyfer gwibdeithiau ysgol, fel y nodwyd yn atodlen 6, a materion eraill cysylltiedig â'r ysgol lle y rhoddir cyfrifoldeb iddynt o dan gyfraith addysg ond maent yn cael eu hatal rhag gwneud penderfyniadau gan weithwyr cymdeithasol. Credwn hefyd y dylai'r llywodraeth asesu ystod ehangach o wneud penderfyniadau bob dydd y tu hwnt i giatiau'r ysgol, er mwyn rhoi mwy o eglurder i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu dirprwyo mwy o benderfyniadau.

Bydd dirprwyo pwerau gwneud penderfyniadau yn dibynnu ar math y cynllun ar gyfer y plentyn. Er mwyn i leoliadau arwain at y deilliannau mwyaf positif i blant a phobl ifanc, dylai gofalwyr maeth dderbyn cadarnhad ysgrifenedig o baramedrau eu rôl ynghylch awdurdod a ddirprwywyd yn cynnwys unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sy'n berthnasol i'r lleoliad. Mae angen i'r rhain gael eu trafod, eu cyd-drafod a'u gwneud yn glir mewn cytundeb ysgrifenedig.

**Ymwneud gan weithwyr cymdeithasol**

Unwaith eto mae ein haelodau yn adrodd bod amrywiaeth sylweddol ar draws asiantaethau. Mae rhai gofalwyr yn derbyn nifer isafswm statudol o ymweliadau yn unig ac mae eraill yn derbyn ymweliadau gan eu gweithiwr cymdeithasol eu hunain a gweithiwr cymdeithasol y plentyn. Dywedwyd wrthym nad yw'r ymweliadau hyn yn cael eu cydlynu yn aml, gyda'r gofalwr maeth yn gorfod siarad â'u gweithiwr cymdeithasol tra'n sefyll ar eu traed yn y gegin oherwydd bod y plentyn maeth yn siarad â'u gweithiwr cymdeithasol hwy mewn un ystafell gyda phlant y gofalwr ei hun yn gorfod aros yn eu hystafelloedd gwely.

Mae arweiniad statudol yn bodoli yng Nghymru sy'n nodi isafswm nifer o ymweliadau gan weithwyr cymdeithasol â phlant mewn lleoliadau maeth. Ar ôl i blant fod mewn lleoliad am fwy na blwyddyn, gellir eu gweld unwaith yn unig bob chwe mis. Mae'n cymryd amser i blant a gweithwyr cymdeithasol adeiladu perthynas ac mae'n annhebygol y gall perthynas agored llawn ymddiriedaeth ddatblygu rhyngddynt pan fydd ymweliadau yn digwydd ar gyfnodau afreolaidd.

**ARFER DA**

Cynhyrchodd Rhwydwaith Maethu Cymru, ar ran LlCC, ganllaw o'r enw Dyddiadur Amy "Dyddiadur Amy" Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009 i athrawon a gweithwyr cymdeithasol ar eu cyfrifoldeb penodol i blant mewn addysg uwchradd sy'n derbyn gofal.Comisiynwyd Rhwydwaith Maethu Gogledd Iwerddon gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd yng Ngogledd Iwerddon i ddatblygu cynigion ynghylch dirprwyo cyfrifoldeb i ofalwyr maeth CYSWLLT IWERDDON Phyllis Elwood Y Rhwydwaith Maethu. Byddai hyn yn sicrhau lefel uwch o annibyniaeth yn nhermau gwneud penderfyniadau bob dydd i'r teuluoedd a'r ffrindiau hynny sy'n maethu plentyn ac i ofalwyr maeth dieithr sy'n gofalu am blentyn mewn gofal tymor canolig neu hir dymor. Ymgynghorwyd ar gynigion drafft ac maent ar hyn o bryd gyda'r adran yn disgwyl cymeradwyaeth.Comisiynwyd y Rhwydwaith Maethu i ymgymryd â gwaith tebyg yn Lloegr.

**Argymhelliad:**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei wneud yn ofynnol ar awdurdodau lleol ddirprwyo mwy o benderfyniadau i ofalwyr maeth a sicrhau bod arolygu yn digwydd yn unol â rheoliadau ac arweiniad. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i blant mewn gofal fyw bywyd teuluol llawn.

Rhaid ymgymryd â gwaith pellach er mwyn esgor ar y newid diwylliannol sydd ei angen i sicrhau bod newid yn cael ei wreiddio mewn arfer.

Mae'r Rhwydwaith Maethu wedi ymgymryd â gwaith yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr, a byddai'n barod i wneud gwaith tebyg yng Nghymru.

Dylid adolygu addysg gwaith cymdeithasol i sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei chynnwys ar blant sy'n derbyn gofal.

8. I ba raddau mae lleoliadau plant mewn gofal yn cael eu hadolygu'n ansoddol? A allwch ddarparu unrhyw enghreifftiau o leoliadau yn derbyn dadansoddiad manteision cost, er enghraifft?

**YMATEB**

Rydym yn gwybod nad yw deilliannau i blant sy'n derbyn gofal yn ddigon da.

Nid yw'r system adolygu ar gyfer deilliannau yn ddigon cadarn nac yn ddigon uchelgeisiol i blant sy'n derbyn gofal.

Caiff deilliannau i blant sy'n derbyn gofal eu mesur yn genedlaethol, ac mae'r dangosyddion yn cynnwys amlder lleoliadau a nifer y plant sy'n gadael gofal. Mae'n gymharol hawdd mesur y digwyddiadau hyn, ond mae data ansoddol ar les emosiynol plant yn llawer anos ei gyfrifo, ond eto mae'n hollbwysig ei fod hysbys.

Caiff lleoliadau unigol eu monitro a'u hadolygu o dan ofynion rheoleiddiol. Mae ein haelodau sy'n ofalwyr maeth yn adrodd nad yw eu barn yn cael ei cheisio bob amser yn ystod adolygiadau o leoliadau ac maent yn teimlo'n aml os yw eu barn yn cael ei cheisio, mae wedyn yn cael ei diystyru, sy'n adlewyrchu diffyg cydnabyddiaeth o'u rôl broffesiynol.

Mae rôl y swyddfa adolygu annibynnol yn hollbwysig ond eto mae ein haelodau yn adrodd mai amrywiol yn eu mewnbwn.

Caiff gofalwyr maeth eu hadolygu'n flynyddol o fewn y fframwaith rheoleiddiol ac ystyrir eu hanghenion hyfforddiant a'u barn am y lleoliad.

Cyhoeddodd Rhwydwaith Maethu Cymru ddadansoddiad cost o ofal maeth cefnogi Support Care The Preventative Face of Foster Care Rhwydwaith Maethu Cymru 2008 a gyfrifodd fod gofal maeth cefnogi i ddau o blant yn costio £7,778 am 8 mis yn erbyn gofal maeth llawn amser o £27,040 (costau Gorffennaf 2007). Mae Gofal Cefnogi yn ffurf ar ofal maeth ag iddo derfyn amser sydd fel arfer yn para 6 i 9 mis lle mae plant yn treulio un noson yr wythnos a phenwythnos gyda gofalwyr maeth pan fydd ymyraethau ychwanegol yn cael eu darparu i deuluoedd. Mae gofalwyr maeth cefnogi fel arfer yn cael eu cyflogi o broffesiynau fel dysgu neu nyrsio.

**Cyffredinol**

9. A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud am leoli plant mewn gofal? A oes unrhyw argymhellion penodol y byddech yn eu hawgrymu y dylai'r Pwyllgor eu gwneud i Lywodraeth Cynulliad Cymru?

**YMATEB**

Codwyd y materion ychwanegol canlynol gan ein haelodau:

**Cyhuddiadau**

Mae mwyafrif gofalwyr maeth yn derbyn, o ystyried cefndir cythryblus llawer o'r plant y maent yn eu maethu, eu bod yn wynebu risg uchel o gyhuddiad yn cael ei wneud yn eu herbyn. Ond er gwaethaf yr effaith drychinebus bosib y gall hynny ei gael arnyn nhw a'u teuluoedd maent yn parhau i faethu. Amlygwyd graddau'r risg hwn mewn arolwg pwysig o dros 1000 o ofalwyr maeth a gynhaliwyd gan y Rhwydwaith Maethu ar draws y DU, yn 2006. Cafwyd bod un o bob tri gofalwr maeth wedi profi cyhuddiad ar ryw adeg yn ystod eu gyrfa maethu. Er bod gofalwyr maeth yn cydnabod y risg hwn fel rhan o'u hymrwymiad i'r plant y maent yn gofalu amdanynt, mae'r niwed a achosir drwy fethu ag archwilio cyhuddiadau yn brydlon ac yn briodol a chefnogi gofalwyr maeth sy'n destun archwilio yn annerbyniol.

Nid yw gofalwyr maeth yn cael eu hysbysu am eu hawliau bob amser pan fydd cyhuddiad yn cael ei wneud yn eu herbyn. Cânt eu gadael mewn cyflwr gofidus, gydag ychydig iawn o wybodaeth, heb wybod lle i gael cymorth.

Mae Rhwydwaith Maethu Cymru yn rhedeg llinell gymorth cyngor a chefnogaeth, Llinell Maethu Cymru, sy'n derbyn galwadau yn rheolaidd gan ofalwyr maeth gofidus yn ceisio cefnogaeth a gwybodaeth yn dilyn cyhuddiad.

Mae angen gwella'r archwilio. Mae staff gwasanaethau maethu yn adrodd nad ydynt yn derbyn gwybodaeth yn brydlon gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Mae hyn yn golygu nad yw staff yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ofalwyr maeth ac rydym yn clywed am ofalwyr maeth yn aros misoedd am wybodaeth am gynnydd yr archwiliad.Yn anffodus weithiau mae'r cyhuddiadau yn cael eu cadarnhau.

<sty sys-align-left><sty sys-align-left><sty normal><sty sys-bold>Argymhelliad <sty sys-list><sty sys-item><sty normal>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru osod terfynau statudol gorfodol ar gyfer archwiliadau a dylai perfformiadau gwasanaethau maethu gael eu monitro yn eu herbyn. <sty sys-item><sty normal>Dylai gwasanaethau maethu barhau i dalu ffioedd i ofalwyr maeth, sydd i bob pwrpas wedi'u gohirio dros dro rhag gweithio fel gofalwr maeth yn ystod cyhuddiad, tan i'r archwiliad gael ei gwblhau a'u bod yn ailddechrau gweithio, neu fod eu cymeradwyaeth yn cael ei dileu. <sty sys-item><sty normal>Dylai gwasanaethau maethu yn talu cyfran o'r lwfans i gwmpasu costau parhaus fel yswiriant, biliau cyfleustodau a rhent neu forgais i ofalwyr maeth sydd i bob pwrpas wedi'u gohirio dros dro rhag gweithio fel gofalwr maeth yn ystod cyhuddiad. <sty sys-item><sty normal>Dylai'r holl wasanaethau maethu ddarparu cefnogaeth annibynnol i ofalwyr maeth drwy gydol unrhyw gyhuddiad. Rhaid i'r llywodraeth gyhoeddi arweiniad i ddiffinio'n glir y lefel ofynnol o gefnogaeth annibynnol a rhaid i asiantaethau arolygu sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno. <sty sys-item><sty normal>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu systemau apeliadau tryloyw, hygyrch ac annibynnol i adolygu penderfyniadau am ofalwyr maeth y mae eu cymeradwyaeth wedi'i dileu neu'i diwygio yn dilyn cyhuddiad. <sty sys-item><sty normal>Dylid sefydlu'r system adolygiadau annibynnol arfaethedig (dogfen ymgynghorol Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol Cymru) a dylai fod yn hygyrch i ofalwyr maeth y mae eu cymeradwyaeth yn cael ei dileu neu mae termau eu cymeradwyaeth wedi'u cyfyngu'n ddifrifol yn dilyn cyhuddiad. <sty sys-align-left><sty normal><sty sys-bold>Gofal gan deuluoedd a ffrindiau <sty sys-list><sty sys-item><sty normal>Mae'r asesiad cyfredol ar gyfer addasrwydd i ennill cymeradwyaeth fel gofalwr maeth wedi'i ddatblygu i asesu gofalwyr maeth i ofalu am ystod o blant nad ydynt yn eu hadnabod. Mae angen datblygu asesiad i deuluoedd a ffrindiau sy'n ofalwyr sy'n adnabod y plant y maent yn cael eu hasesu i ofalu amdanynt, ac y gallent mewn gwirionedd fod yn gofalu amdanynt eisoes. <sty sys-item><sty

